

Ysgol Gymraeg Pwll Coch

**Adroddiad Blynyddol y
Llywodraethwyr i Rieni
2024-25**



Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Rhodfa Lawrenny
Caerdydd
CF11 8BR

Ffôn: 02920 373 453

E-bost: ysgolpwllcoch@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.ysgolpwllcoch.co.uk

Instagram: [@ysgolgybraegpwllcoch](https://www.instagram.com/ysgolgybraegpwllcoch)

Pennaeth: Mr. Dewi Rees

**“Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn gymuned
ddysgu egniol a chynhwysol lle mae
disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu
gwerthfawrogi.”**

Estyn, 2024



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

We welcome correspondence in Welsh, English or bilingually.



Neges gan y Cadeirydd

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Gymraeg Pwll Coch i chi ar ran y Corff Llywodraethu.

Bu'n flwyddyn arbennig o brysur yn Ysgol Pwll Coch eleni. Wrth weld yr ysgol yn parhau i dyfu mewn niferoedd, hyfryd oedd gweld y disgyblion yn cael eu hysbrydoli gan athrawon a chynorthwyr medrus, a chymuned gyfan yn chwarae rhan holl bwysig yn addysg y disgyblion. Hoffwn ddiolch yn ddidwyll i arweinyddiaeth yr ysgol am eu gofal arbennig o'r gymuned hon unwaith eto eleni.

Cawsom ymweliad gan ESTYN yn nhymor yr Hydref eleni, oedd nodi ei bod yn 'gymuned ddysgu egniol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi.' Rydym hefyd yn 'darparu cyfleoedd eang o fewn y meysydd dysgu ac yn cydweithio ar draws blynyddoedd i gynllunio profiadau cyfoethog sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn bwrpasol.' Hoffwn ddiolch i'r holl staff, rhieni a disgyblion am bob cydweithrediad yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr ysgol yn mynd ati i adeiladu ymhellach ar yr adborth cadarnhaol a gafwyd.

Diolch i'r holl staff a rhieni sydd hefyd wedi rhoi profiadau allgyrsiol mor gyfoethog i'r disgyblion, gan gynnwys perfformio yn Tafwyl, Chwaraeon yr Urdd, cyngerddau a chystadlaethau lleol a chenedlaethol. Llongyfarchiadau mawr i'r Cyflwyniad Theatrig am ennill yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni – tipyn o gamp!

Hoffwn ddiolch i Ffrindiau Ysgol Pwll Coch am yr holl weithgarwch codi arian, a gwelwyd datblygu'r ardd ganol yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn i fod yn ofod hyfryd a defnyddiol. Trefnwyd codi arian drwy redeg pellter o Gaerdydd i'r Swistir, wrth i dîm menywod Cymru chwarae eu gêm gyntaf yno eleni. Gwelwyd cyfleoedd i'r gymuned gyfan ddod at ei gilydd, yn eu plith yr Wyl Fwyd, y Ffair Nadolig a bore coffi Macmillan.

Diolch i'r llywodraethwyr am roi o'u hamser i gynorthwyo datblygiad yr ysgol, a diolch i chi fel rhieni/gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus.

Yn olaf, diolch i'n disgyblion unigryw a dawnus sy'n ein hysbrydoli ni i gyd bob dydd!

Yn ddiffuant,

Nona Gruffudd-Evans

Cadeirydd y Corff Llywodraethu



Ein Nod

Ein nod yw cynnal cymuned ysgol ofalgar a chynhwysol sy'n cynnig profiadau addysgol cyfoethog, gan ddatlu ein Cymreictod ac amrywiaeth ein diwylliannau.

Fel ysgol byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau i lwyddo yng nghanau nesaf eu bywydau.

Cefnogwn bob disgybl i ddatblygu yn:

- ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- ddinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan lawn yn ein prifddinas, yng Nghymru a'r byd;
- unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Gweledigaeth

Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn ymrywmo i wireddu'r weledigaeth isod:

- Cynnal cymuned ysgol ofalgar, gefnogol a chynhwysol lle mae hapusrwydd a lles bob unigolyn yn flaenoriaeth ar bob adeg.
- Ymdrechu i ffurfio perthnasoedd cryf gyda'n holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau y deilliannau gorau posibl i bob un.
- Anelu at ddarparu cwricwlwm ysgogol a chyffrous gyda phwyslais ar brofiadau addysgol cyfoethog.
- Darparu cyfleoedd i aelodau o gymuned yr ysgol, a'r gymuned ehangach, i ennill profiadau sydd yn datblygu balchder yn eu Cymreictod a rhuglder yn yr iaith Gymraeg.
- Annog dyheadau, hyrwyddo uchelgais a chydabod ein bod i gyd yn ddysgwyr gydol-oes.
- Hyrwyddo parch tuag at yr amgylchfyd a chyd-ddyn a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol o fewn ein dinas.



Am y Corff Llywodraethu

Mae'r Llywodraethwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau ac yn gweithio yn agos gyda'r Pennaeth a'r ysgol. Rydym yn llunio nodau a pholisiau'r ysgol. Nid oes gan unrhyw lywodraethwr unigol awdurdod trosfwaol; mae'r Corff Llywodraethu yn ei gyfanwydd yn dirprwyo pwerau i'r is-bwyllgorau. Fodd bynnag, mae can y Cadeirydd yr awdurdod i ymateb i lythyron, ymdrin gydag argyfyngau a chysylltu gyda'r Pennaeth heb droi at y Corff Llywodraethu llawn. Penodir Llywodraethwyr am gyfnod o 4 blynedd. Ar ddiwedd cyfnod, ar ran y rhieni, anfonir llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgol yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y lle(oedd) gwag.



| Enw | Statws | Cyfnod y Swydd | Manylion Cyswllt |
|---|-------------------------------|---|--|
| Nona Gruffudd-Evans | Cadeirydd | 02/2029 | Mrs Nona Gruffudd- Evans Ysgol Gymraeg Pwll Coch Rhodfa Lawrenny Lecwydd Caerdydd CF11 8BR Ms Eve Smith Ysgol Gymraeg Pwll Coch |
| Lydia Stirling | Is-gadeirydd | 05/2025 | |
| Dewi Rees | Pennaeth | | |
| Eve Smith | Clerc | | |
| Helen Raynor Lydia Sterling Rhianydd Lloyd Gwenfair Griffith Mike Gelder Jennifer Butcher Claire Archer Joy | Rhieni Lywodraethwyr | 05/2025 05/2025 05/2029 10/2025 10/2025 05/2029 05/2029 | |
| Hannah Thomas Thomas Dunn | Llywodraethwyr Cymunedol | 10/2025 04/2029 | |
| Stephen Cunnah Rhodri ab Owen | Llywodraethwyr Awdurdod Lleol | 06/2025 06/2029 | |
| Sian Andrews Tracey Rees Samantha Sampson | Cynrychiolwyr Staff | 11/2024 05/2026 01/2028 | |

Is-Bwyllgorau'r Corff Llywodraethu

Mae gan y Corff Llywodraethu bedwar is-bwyllgor sydd yn cwrdd yn dymhorol ac yn adrodd i'r Corff Llywodraethu llawn. Mae pob is-bwyllgor yn rheoli, cefnogi a goruchwyllo gwahanol agweddau o fywyd yr Ysgol. I fod yn effeithiol, dylai ymweliadau cyson i safle'r ysgol ddigwydd, gyda chyfleoedd i rannu digwyddiadau hyfforddi ac i gysylltu'n agos gyda staff a disgyblion yr ysgol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yr is-bwyllgorau ar safle'r ysgol.

Is-Bwyllgorau 2024-25

- Cwricwlwm a Safonau
- Iechyd a Diogelwch / Safle
- Staffio a Chyllid
- Iechyd a Lles

Is-Bwyllgor Cwricwlwm a Safonau

- Pa mor dda mae'r Ysgol yn gwneud?
- Sut rydym fel Llywodraethwyr yn gwybod?
- Beth sydd angen newid?

Er mwyn ymateb i'r cwesitynau hyn, mae'r pwyllgor yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn er mwyn monitro a gwerthuso cyflawniad a chynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau allweddol. Mae'r pwyllgor yn cefnogi staff yr ysgol wrth werthuso canfyddiadau adolygiadau mewnol ac adborth o weithgareddau hunanwerthuso. Yn dilyn adolygiadau allannol megis Estyn, bydd y pwyllgor yn cytuno ar gamau angenrheidiol i fynd i'r afael â unrhyw argymhellion. Mae'r pwyllgor yn cyflwyno ac yn gwerthuso'u cyfraniad i weddill y Corff Llywodraethu ac yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Is-Bwyllgor Staffio a Chyllid

Gwnaeth yr is-bwyllgor Cyllid a Staffio gwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn er mwyn sefydlu blaenoriaethau ar gyfer gwariant a sicrhau bod y rhain yn rhoi cymorth i reolwyr yr ysgol a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'n ystyried dosbarthiad y gyllideb o ran y Cynllun Gwella Ysgol yn fanwl ac yn creu cynllun ariannol strategol ar gyfer yr ysgol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cynllun gwario bob blwyddyn i'r Corff Llywodraethu ac yn pennu terfynau dirprwyo ariannol i'r Pennaeth yn flynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn craffu ar adroddiadau a chyfrifon yn dymhorol, ac yn ymchwilio unrhyw achosion o orwario. Caiff prosesau cyllidebol ac ariannol yr ysgol eu monitro gan y pwyllgor er mwyn sicrhau cydymffurfir gyda rheolaiadau ariannol bob amser. Mae'n sicrhau bod cyfrifon yr ysgol yn cael eu cynnal yn gywir i hwyluso'r gwaith archwilio a monitro argymhellion yr archwilwyr allanol. Mae'r Pennaeth a'r Rheolwr Busnes yn adrodd i'r Pwyllgor bob tymor.

Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch/ Safle

Mae'r Pwyllgor yn cynnal crwydrau cyson o safle'r ysgol er mwyn cefnogi'r Pennaeth gyda gwaith datblygu safle a phryderon iechyd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor hwn yn rhoi cymorth i'r Pennaeth a'r Rheolwr Safle ar yr holl faterion cysylltiedig â adeilad a thiroedd yr ysgol ac unrhyw fater diogelwch. Pan yn addas, mae'r pwyllgor yn cwrdd gyda swyddogion yr Awdurdol Lleol i drafod materion sy'n cael effaith ar yr Ysgol a'i chymuned, gan gynnwys Swyddog Iechyd a Diogelwch y Sir.

Is-Bwyllgor Iechyd, Lles a Chymuned

Mae'r Is-Bwyllgor Iechyd, Lles a Chymuned yn cydweithio gyda Phennaeth yr Ysgol wrth:

- oruchwylio bywyd bugeiliol yr ysgol a sicrhau bod hyn yn cyfoethogi bywydau cymuned yr Ysgol;
- sicrhau bod yr ysgol yn cymryd ei lle gan wahodd y gymuned ehangach i gymryd rhan ym mywyd yr Ysgol;
- ystyried a datblygu anghenion pob disgybl, aelod o staff a Llywodraethwyr.

Wrth edrych i ddatblygu cysylltiadau cymunedol yr ysgol, mae'r pwyllgor yn cefnogi systemau cyfathrebu yr ysgol, annog gweithgareddau yn y gymuned ac yn cysylltu'r ysgol gyda agweddau newydd o'r gymuned tra'n edrych i hyrwyddo enw da yr ysgol yn y gymuned leol. Mae'r pwyllgor yn cynorthwyo'r ysgol er mwyn hyrwyddo lles academaidd, ysbrydol, corfforol a meddyliol holl ddisgyblion a staff yr ysgol gan roi sylw i ddatblygiad ac addysg pob disgybl a allai fod mewn perygl o fethu â chyrraedd ei lawn/ ei llawn botensial. Bydd y pwyllgor yn ceisio ffyrdd o helpu'r ysgol a staff i wella presenoldeb, codi statws pwyllgorau disgyblion a sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r Corff Llywodraethu llawn unwaith y tymor.

Adolygu Polisiau

Mae polisiau yn cael eu hadolygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yr ysgol. Gall ymgynghori fod ar waith gyda disgyblion, staff, rhieni, Llywodraethwyr, awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill fel y bo'n briodol. Yna, adolygir a chymeradwyir y polisiau gan y Corff Llywodraethu cyn eu gweithredu.

Staff yr Ysgol

Tîm Arwain Strategol

Mr. Dewi Rees – Pennaeth
Mrs. Samantha Sampson – Dirprwy Bennaeth

Miss. Hannah Owen - Pennaeth yr Ysgol Uchaf
Mrs. Catherine Sellwood – Pennaeth yr Ysgol Isaf
Mr. Gareth Vaughan-Owen – Cydlynnydd ADY a Lles (Ysgol Uchaf)
Mrs. Sandra Graville - Cydlynnydd ADY a Lles (Ysgol Isaf)

Athrawon Dosbarth

Miss. Hannah Owen - 6 Rhiannon
Ms. Becca Lewis – 5/6 Taliesin
Mr. David Plain – 5 Owain Glyndŵr
Ms. Carys Alun – 4 Caradog
Mrs. Nerys Griffiths-Jones - 3/ 4 Gelert
Mrs. Amy Edwards – 3 Arthur
Mrs. Catherine Sellwood– 2 Pwyll
Mrs. Sandra Graville – 1 Branwen
Mrs. Catrin Evans – Derbyn Non
Mrs. Meinir Williams / Mrs. Tracey Rees – Y Feithrin

Mrs. Marie Drawbridge-Harding – Yr Hafan
Mrs. Shelley Lewis - Yr Hafan
Mrs. Elle Woodberry– Y Nyth

Miss. Sioned Jones/ Mrs. Mari Hughes/ Mr. Rhys Cahill – CPA

Cynorthwy-wyr Addysgu Yr Ysgol Uchaf

Mrs. Tina Jenkins

Yr Ysgol Isaf

Mrs. Sam Cottrell
Mrs. Megan Hughes
Miss. Phillipa Evans
Miss. Jenna Sinclair
Miss. Eilw Leader

Yr Hafan

Mrs. Iona Joseph
Miss. Rhian Harry
Miss. Stacey Done
Mrs. Elin Morgan

Y Nyth

Mrs. Beti Jones
Mr. Tommy Goodman
Mr. Owen Pritchard

Swyddog Gweinyddol

Mrs. Suzanne Wheeler-Wood

Swyddog Gweinyddol a Chyllid

Ms. Eiry Davies

Rheolwr Ystadau

Mr. Graham Hobbs

Tîm Arlwyo

Mrs. Wendy Tonna

Tîm Clwb Brecwast

Mrs. Wendy Tonna
Mrs. Balvinda Rathore
Mrs. Sam Cotterill
Miss. Stacey Done
Mrs. Julie Ullah

Goruchwylywr Amser Cinio

Mrs. Ella Johnson-Lefevre
Mrs. Kim Campbell
Miss. Natasha Burke
Mrs. Massuma Tarafder
Miss. Riema Robben
Mrs. Hannah Way

Dyddiadau'r Tymor 2024/25

Tymor yr Hydref, 2024

Dechrau - Dydd Llun, 02/09/24
Diwedd – Dydd Gwener, 20/12/24
Hanner Tymor – 28/10/23-01/11/24

Tymor y Gwanwyn, 2025

Dechrau – Dydd Llun, 06/01/25
Diwedd – Dydd Gwener, 11/04/25
Hanner Tymor – 24/02/23-28/02/25

Tymor yr Haf, 2025

Dechrau – Dydd Llun, 28/04/25
Diwedd – Dydd Llun, 18/07/25
Hanner Tymor – 26/05/24-30/05/25

Hyfforddiant Mewn Swydd 2024/25

Trefnir Hyfforddiant Mewn Swydd o fewn y flwyddyn ysgol. Ar y diwrnodau yma bydd yr ysgol ar gau ar gyfer y disgyblion:

Dydd Llun, 02/09/24

Dydd Mawrth, 03/09/24

Dydd Mercher, 25/09/24

Dydd Llun, 06/01/25

Dydd Llun, 04/03/25

Dydd Llun, 21/07/25

Am fanylion pellach ynglŷn â dyddiadau'r tymor, ewch i:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Dyddiadau-tymor-ysgol/Pages/default.aspx>

Prosbectws

Mae'r Prosbectws ar gael ar wefan yr ysgol. Mae gwybodaeth statudol perthnasol ar gael i rieni yn y Prosbectws neu mewn manau penodol ar ein gwefan.

Y Gymraeg

Rydym yn ymfalchio yn y ffaith taw ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Ar wahân i'r Saesneg, sy'n cael ei chyflwyno yn yr Ysgol Uchaf, mae pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni addysgir Saesneg yn yr Ysgol Isaf. Anogir pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser. Mae'r Ysgol yn gweithio ar dargedau Gwobr Arian y Siarter Iaith.

Gweithgareddau a Chwaraeon

Yn ogystal â chyfleoedd cyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn ein gwersi wythnosol, cynlluniwyd nifer o gyfleoedd i dimoedd yr ysgol i gystadlu mewn cystadlaethau di-ri. Yn ogystal, roedd ein Wythnos lechyd a Lles yn llwyddiant ysgubol a braf oedd gweld ein disgyblion yn profi ystod o gampau newydd.

Dyma flas o'r profiadau a'r cystadlu a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn:

- 17/09/24 – Taith B13&4 – Opera Cenedlaethol
- 27/09/24 – Bore Goffi Macmillan
- 27/09/24 – Diwrnod STEM Blwyddyn 6
- 01/10/24 – Pêl-droed cymysg 5&6
- 07/10/24 – Cogurdd
- 08/10/24 – Ymwelid B13&4 i Gastell Caerdydd
- 09/10/24 – Cerddorfa Clwstwr Glantaf
- 18/10/24 – Gwisgwch Goch i Hiliaeth
- 21/10/24 – Taith Breswyl Llangrannog – Blwyddyn 6
- 05/11/24 – Pêl-droed cymysg 3&4
- 05/11/24 – Pêl-droed Merched
- 11/11/24 – Wythnos Gwrth-Fwlian
- 19/11/24 – Pantomeim Culhwch ac Olwen
- 12/12/24 – Diwrnod Siwmperi Nadolig
- 13/12/24 – Diwrnod Faciwi Blynnyddoedd 5&6
- 16/12/24 – Y Côr yn canu mewn Cartrefi Henoed
- 14/01/25 – Gweithdy Ailgylchu Cyngor Caerdydd
- 07/02/25 – Dydd Miwsig Cymru
- 06/03/25 – Diwrnod Y Llyfr
- 26/05/25 – Eisteddfod Yr Urdd, Margam
- 08/07/25 – Dyn Y Sioe



Cysylltiadau Cymunedol

Rydyn ni'n falch iawn o'r cysylltiadau rhagorol ac amrywiol sydd gennym gyda'r gymuned leol. Datblygwyd nifer o gysylltiadau gwerthfawr yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:



- Cydweithio gyda Mudiad Meithrin er mwyn cyflwyno gwersi Cymraeg am ddim i rieni a gwarcheidwaid yr ysgol.
- Croesawyd nifer o ymwelwyr proffesiynol i'r ysgol, yn cynnwys seicolegydd addysg, heddwys yr ysgol, nyrs yr ysgol, y frigâd dân, clerigwyr, swyddogion cyllid, swyddog iechyd a diogelwch a TGCh, swyddog presenoldeb, athrawon ymgynghorol ac athrawon pontio o Lantaf.
- Fel rhan o waith pontio gydag Ysgol Glantaf mae Bl 5 a 6 yn derbyn gwersi ieithoedd modern yn wythnosol.
- Mae nyrs yr ysgol a swyddogion Cynllun Gwên yn ein cefnogi yn ein gofal o iechyd a lles y disgyblion.
- Gweithiwn yn agos gyda Gwasanaeth Cerddoriaeth y Sir a Cerdd Canna wrth ddarparu gwersi wythnosol i'r disgyblion.
- Cefnogodd y Pwyllgor Eco y Banc Bwyd unwaith eto eleni gyda chasgliad Cynhaeaf lwyddiannus!
- Sefydlwyd y Bws Beics ar ddydd Gwener olaf bob mis!
- Canodd y Côr yn y gymuned ar sawl achlysur, gan gynnwys yng Ngerddi Plasturton adeg y Nadolig.
- Canodd ein disgyblion Blwyddyn 2 a'r Côr yn Tafwyl unwaith eto eleni.

Am wybodaeth bellach am gysylltiadau cymunedol yr Ysgol, cadwch lygad ar ein cyfrif Instagram a'r Cylchlythyr pythefnosol.

Ffrindiau Ysgol Gymraeg Pwll Coch

<https://www.instagram.com/ffrindiauysgolpwllcoch?igsh=MTFncTN5a3A1M3gzcA==>

Rôl y Ffrindiau yw trefnu digwyddiadau cymdeithasol a chodi arian ar gyfer yr ysgol er mwyn cefnogi addysg y disgyblion. Rydym hefyd yn angerddol am greu cymuned yn ysgol Pwll Coch ac yn ogystal â chodi arian rydym yn awyddus i ddathlu a chefnogi ein teuluoedd amrywiol ac aml-ddiwylliannol.

Mae "Ffrindiau Pwll Coch" yn cael ei redeg gan y rhieni, ac maen nhw, ynghyd â'r Athrawon yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y tymor. Etholir y pwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Dyma flâs ar weithgareddau'r Ffrindiau yn ystod y flwyddyn 2024-25:



- Raffl Nadolig 2024
- Ffair Aeaf 2024
- Disgo Calan Gaeaf 2024
- Dathliad Bollywood 2025
- Gwyl Fwyd Rhyngwladol 2025
- Ras Hwyl 2025

Rhoddion

Yn dilyn blwyddyn arall o waith caled y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, roedd yr ysgol yn ffodus iawn i dderbyn cyfraniadau ariannol i wario ar adnoddau a darpariaeth ar draws yr Ysgol.

- £1,000 at fws Llangrannog Blwyddyn 6.
- £2,500 ar gyfer yr ardd ganol.
- £2,000 ar gyfer celfi newydd i Flynyddoedd 1 a 2.
- Cyfraniad at weithgareddau Eisteddfod yr Urdd.

YSGOL GYMRAEG PWLL COCH



Cwricwlwm, Dysgu ac Addysgu

Dyluniwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru i fod o gymorth i athrawon ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r staff wedi gweithio'n galed i gyflwyno newidiadau sydd yn adlewyrchu gofynion madadol Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r chwe Maes yn dwyn disgyblaethau cyfarwydd ynghyd, ac yn annog cysylltiadau ystyrion a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd y disgyblaethau unigol hynny'n parhau i chwarae rhan bwysig, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd a dechrau arbenigo.

Yn ogystal â chydweithio mae'r canllaw yn annog dysgu ac addysgu traws-ddisgyblaethol, a hynny o fewn ac ar draws y Meysydd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fagu cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau. Bydd y broses o archwilio ac ailymweld â'r datganiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol ddyfnach ar hyd y continwrm dysgu ac i ddangos cynnydd ar y daith tuag at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

Bydd y ddealltwriaeth fwy soffistigedig hon yn galluogi ein dysgwyr i werthfawrogi sut mae eu dysgu'n cyfrannu tuag at y syniadau hyn a pham mae hyn yn bwysig, yn hytrach nag adalw ffeithiau digyswllt heb ddeall y cyd-destun. Cefnogwn y cynnydd hwn gydag amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n galluogi'r dysgwyr ac athrawon i ddeall ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud nesaf.

Trefnwn ein Cwricwlwm yn ôl y 6 Maes Dysgu a Phrofiad:

- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Wrth ystyried anghenion dysgu ychwanegol, edrychwn ar un neu ragor o'r pedwar maes cyffredinol isod:

- cyfathrebu a rhyngweithio anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- dirnadaeth a dysgu anawsterau dysgu sy'n amrywio o ganolig i ddwys
- ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol- mae hyn yn cynnwys amrediad o ymddygiadau gwahanol gan gynnwys pethau fel mynd i gragen, aflonyddu, gorfywio-grwydd, methu canolbwyntio a diffyg sgiliau cymdeithasol
- synhwyrol, corfforol neu feddygol yn cynnwys anawsterau sy'n gysylltiedig â nam ar y golwg neu'r clyw ac anabledau corfforol eraill.

Mae plant yn gwneud cynnydd ar wahanol gyflymder i'w gilydd ac mae'r ffordd maen nhw'n dysgu'n gallu amrywio. Wrth gynllunio gwersi ar sail y Cwricwlwm Cenedlaethol a gweithredu o fewn themâu canolog, mae'r athro/athrawes yn rhoi sylw i hyn drwy edrych yn ofalus ar sut maen nhw'n trefnu eu gwersi, yr ystafell ddosbarth, y llyfrau a'r deunyddiau. Yna, byddan nhw'n dewis y ffyrdd mwyaf priodol o helpu'r plant i ddysgu o blith ystod o weithgareddau.

Mae'r ystod a gynhwysir o fewn anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol o eang, o blant a datganiadau swyddogol hyd at blant disglair sy'n teilyngu gwaith ymestynnol i gadw eu diddordeb a datblygu eu galluedd. Yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, rydym yn darparu er mwyn ateb anghenion y plant. Bwriadwn i bob disgybl elwa'n llawn o'i gyfnod yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch; rhaid felly darparu'n llawn ar gyfer pob angen a gosod strwythurau yn eu lle i fonitro a darparu ar gyfer yr anghenion hynny.

Mewn cydweithrediad agos ag athrawon y dosbarth mae athrawes a chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn adnabod angen ac yn trefnu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion. Rhoddir sylw i unigolion a grwpiau o fewn yr ystafell ddosbarth ynghyd a chymorth penodol gan staff ategol arbenigol. Mae'r ysgol yn cydweithio yn agos iawn gyda'r Awdurdod Lleol ac yn cyfeirio disgyblion sydd angen sylw pellach at wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol y Cyngor.

Trwy brosesau asesu manwl sydd yn adnabod anghenion penodol plentyn yn gynnar, ein nod yw darparu rhaglen sydd yn addas ar ei gyfer, ac sydd yn galluogi iddynt lwyddo. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anabledau, disgyblion ag anawsterau dysgu a disgyblion Mwy Abl a Talentog. Gyda chaniatâd rhieni, rhoddir enw pob plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar y Gofrestr A.D.Y. yn unol â'r camau a nodir yng 'Nghod Ymarfer Anghenion Dysgu ychwanegol Cymru'. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am roi Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol i blentyn. Cynllunir ysgol gwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion, gan ddarparu adnoddau a chymorth priodol yn sicrhau'r gwerth orau posib o'r gyllideb a ddyrannir gan yr Awdurdod Lleol. Rydym yn monitro ac adolygu ar gynnydd disgybl yn barhaus gan addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Cedwir mewn cysylltiad agos gyda rhieni ynghylch datblygiad eu plentyn, a gwahoddir rhieni i bob adolygiad o gynnydd. Mae copi llawn o'r polisi ADY ar gael yn yr ysgol neu ar y wefan.

Bydd cynorthwy-wyr yn cynorthwyo unigolion a grwpiau bychain o blant gyda'u tasgau a bydd ein Swyddog ELSA yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd. Bydd y cynorthwy-wyr yn gweithio gyda'r disgyblion i gyflawni eu targedau o'u CDU. Mae'r rhaglenni a'r adnoddau hyn yn cael eu darparu neu eu haddasu i weddu i anghenion disgyblion. Rydym yn mesur llwyddiant yr ymyrraethau hyn.

Rydyn ni'n falch iawn o'r dosbarth arbenigol sydd gyda ni yn yr Ysgol, Yr Hafan, sydd yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth a dwys. Roedd 11 disgybl yn y dosbarth yn y flwyddyn 2024-25 gyda dwy athrawes a phum cynorthwy-ydd yn eu cefnogi.

Bwyta'n Iach

I atgyfnerthu'n nodau chwaraeon bywyd iach, mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach ac anogir disgyblion i fwyta'n iach. Paratoir bwydlenni ar lefel Awdurdod sy'n sicrhau'r lefel gywir o faeth. Anogir disgyblion i yfed dŵr wrth weithio ac y maent yn ymwybodol o bwysigrwydd hydradiad y corff. Caiff codi ymwybyddiaeth i fyw'n iach le amlwg yng nghwricwlwm a bywyd yr ysgol. Cafwyd wythnos lechyd a Lles lwyddiannus yn Nhymor yr Haf lle bu'r disgyblion yn dysgu am fwyta a chadw'n iach. Mae'r ysgol yn rhedeg Clwb Brecwast dyddiol sy'n darparu brecwast i hyd at 140 o ddisgyblion ac mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael cynnig llaeth bob dydd. Anogir pob disgybl i ddod â byrbryd iachus i'r ysgol bob dydd.

Cyfleusterau Toiled

Mae gan yr ysgol ddigon o dai bach i'r disgyblion. Caiff cyflwr y tai bach ei adolygu'n rheolaidd. Mae gan yr ysgol dai bach sydd â mynediad i ddisgyblion anabl. Caiff toiledau'r ysgol eu glanhau yn ddyddiol gan lanhawyr yr ysgol. Mae'r glanhawyr yn sicrhau bod tai bach disgyblion mewn cyflwr derbyniol ac yn addas i ddisgyblion eu defnyddio. Os oes problemau gyda'r tai bach mae disgyblion yn adrodd yn syth i aelodau staff a chysylltir gyda'r gofalwr a/neu adran cynnal a chadw adeiladau yr ALL. Mae staff yn sicrhau nad oes gordyrru yn y tai bach trwy gyfyngu ar nifer y disgyblion sydd yn cael defnyddio'r tai bach ar y tro.

Clwb Brecwast a Clwb Carco

Mae Clwb Brecwast am ddim yn rhedeg yn llwyddiannus. Cynhelir y clwb rhwng 8:05 a 8:50 bob dydd. Mae'r Clwb Carco yn cael ei gynnal rhwng 15.15 a 17.45 yr hwyr. Cwmni Clwb Carco sy'n gyfrifol am weinyddu a staffio'r Clwb. Cynhelir y clwb yn y caban ar iard gefn yr ysgol.





Crynodeb o Flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol 2024-25

Gosodwyd blaenoriaethau clir ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

Blaenoriaeth 1 - Medrau Ysgrifennu

Mireinio a chysoni darpariaeth, sicrhau uchelgais a dyfnhau dealltwriaeth staff o gynnydd er mwyn codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol.

Blaenoriaeth 2 - Medrau Digidol

Dyfnhau dealltwriaeth holl staff yr ysgol o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth gan arwain at gynnydd priodol i bob dysgwr.

Blaenoriaeth 3 - Rhifedd ar Draws y Cwricwlwm

Gwella cyfleoedd o fewn cyd-destunau bywyd go-iawn, dilys i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol.

Blaenoriaeth 4 - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles

Parhau i ddatblygu darpariaeth ADY a Lles ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod dysgwyr, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn cael mynediad lawn at gwricwlwm yr ysgol.

Blaenoriaeth 5 - Egwyddorion Dysgu Sylfaen

Datblygu amgylchedd dysgu y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen (tu fewn a thu allan) er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella annibyniaeth y dysgwyr.



CARDIFF COUNCIL/GYNGOR CAERDYDD
SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE/CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2024-2025

| Governing Body/Corff Llywodraethu of: | Ysgol Pwll Coch | | | |
|--|---|-----------|---|-----------|
| | Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethu | £ | Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig | £ |
| Staffing costs/Costau Staff | | | | |
| Teaching Costs/Costau Addysgu | 1,000,214 | | 1,056,728 | |
| Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig | 72,223 | | 30,706 | |
| Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad | 161,883 | | 163,085 | |
| Short Term Supply/Llanw Byr Dymor | 0 | | 0 | |
| Long Term Supply/Llanw Hir Dymor | 33,611 | | 115,536 | |
| Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig | 258,198 | | 244,864 | |
| Nursery Assist Teachers/Aides I Adulk | | | | |
| Helpers/Cynorthwyyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon I Cynorthwyyr | 132,703 | | 123,182 | |
| Foreign Language Assistants/Cynorthwyyr Ieithoedd Tramor | 0 | | 0 | |
| Technicians/Technegywyr | 0 | | 0 | |
| Mid Day Supervisors/Gorychwylywyr Canol Dydd | 33,237 | | 34,079 | |
| Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb | 0 | | 0 | |
| Administrative Staff/Staff Gweinyddol | 33,775 | | 44,344 | |
| Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon | 0 | | 0 | |
| Training Costs/Costau hyfforddi | 14,842 | | 3,637 | |
| Other Staff Costs/Costau staff eraill | 71,838 | | 141,437 | |
| Performance Management/Rheoli Perfformiad | 0 | | 0 | |
| Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau | | 1,818,536 | | 1,975,660 |
| Premises Related Costs/Costau Eiddo | | | | |
| Caretaking Staff/Staff Gofalwyr | 23,250 | | 23,516 | |
| Domestic Staff/Staff Domestig | 20,338 | | 21,120 | |
| Grounds Staff/Staff y Tir | 2,500 | | 2,661 | |
| Cleaning Costs/Costau Glanhau | 53,700 | | 56,585 | |
| Energy Costs/Costau Ynni | 68,400 | | 53,275 | |
| Rates/Cyfraddau | 28,343 | | 28,343 | |
| Repairs and Maintenance/Atgyweirio a Chynhalieth Water/Diir | 15,713 | | 8,360 | |
| | 3,135 | | 10,012 | |
| Total Premises Related Costs/Cyfanswm | | 222,579 | | 205,183 |
| Transport Costs/Costau Cludiant | | | | |
| Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion | 0 | | 3,006 | |
| Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff | 100 | | 452 | |
| Vehicle Costs/Costau Cerbydau | 0 | | 0 | |
| Total Transport Costs/Cyfanswm Costau | | 100 | | 3,457 |

| | | | | |
|---|----------|-----------|----------|-----------|
| Supplier and Servicer/Cyflannwddau a | | | | |
| Teaching Materials/Adnoddau Addysgu | 21,000 | | 15,682 | |
| Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offor, Ddefnif, Ddwyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth | 836 | | 520 | |
| Library Books & Materials/Llyfrau a Ddwyddiau Llyfrgell | 0 | | 0 | |
| Catering Cartar/Cartau Arluyau | 3,150 | | 4,317 | |
| Unallocated / Saving to be found/Arian heb ei ddarparu / Cynllian | 2,231 | | 0 | |
| Communications Equipment and Servicer/Offor a Gwaraio Cyfathrebu | 1,123 | | 3,209 | |
| Consultants Fees/Ffioedd Ymgyngharydd | 0 | | 0 | |
| Examinations Fees/Ffioedd Arhaliadau | 0 | | 0 | |
| Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol | 1,575 | | 11,019 | |
| Clerk to Governing Body/Cleric y Carff Llywodraethu | 990 | | 1,473 | |
| Other office costs/Cartau swyddog eraill | 7,660 | | 16,886 | |
| Printing & Stationery/Argraffu a Ddwydd Yrgrifonau | 10,900 | | 12,327 | |
| Pupil Exclusion/Arwaharddadau Diryglbiau | 0 | | 0 | |
| Subsistence and expenses/Cynhalieth a threuliau | 0 | | 0 | |
| Total Supplier and Servicer/Cyfanswm Cyflannwddau a Gwaraio | | 49,465 | | 65,431 |
| Central Servicer/Gwaraio Cwning | | | | |
| School Meals/Frydau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Service Level Agreement/Trefnidau Lefel Gwaraio | 15,177 | | 15,125 | |
| Total for Central Servicer/Cyfanswm ar gyfer Gwaraio Cwning | | 15,177 | | 15,125 |
| Income/Incwm | | | | |
| Additional Central Funding/Haudd Canolig Ychwanegol | -264,805 | | -158,374 | |
| Community Education/Addysg Cymunedol | 0 | | 0 | |
| Donations/Rhoddion | 0 | | -26,349 | |
| Letting/Garadidau | -16,000 | | -25,286 | |
| Other Income/Incwm arall | -79,023 | | -36,538 | |
| Grant Income/Incwm rhent | 0 | | -313,240 | |
| Salaries/Guorthionau | 0 | | 0 | |
| School Meals Recharge/Talu am Frydau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant | 0 | | 0 | |
| Total Income/Cyfanswm Incwm | | -359,828 | | -559,787 |
| Interest and Other/Lliq ac Arall | | | | |
| Interest on investments/Lliq ar fuddraddidau | 0 | | 0 | |
| School Investments/Buddraddidau Ysgol | 0 | | 0 | |
| Withdrawal Investments/Buddraddidau Diloadau | 0 | | 0 | |
| School Deficit/Gwariant Ysgol | 0 | | 0 | |
| Temporary Loans/Benthyciadau Dror Dro | 0 | | 0 | |
| Temporary Loans/Benthyciadau Dror Dro | 0 | | 0 | |
| Interest/Lliq | 0 | | 0 | |
| Total Interest and Other/Cyfanswm Lliq ac | | 0 | | 0 |
| Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant | | 1,746,029 | | 1,711,069 |
| Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddraddidau a ddygwyd ymlaen | | -40,069 | | -28,943 |
| Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a qlurtnadwyd | | -28,943 | | -5,109 |
| Contribution to / from balance of Cyfraniad i / a faliaryz | | | | |
| net resources not expenditure/gwariant net | | 1,677,017 | | 1,677,017 |

Datganiad Ariannol
Dyma ddatganiad all dro ariannol 2024-25:
Treuliau Llywodraethwyr
Ni chyflwynwyd unrhyw hawliadau am dreuliau.

| Summary/Crynodeb | |
|--|------------------|
| Total resources available in 2024-2025 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2024-2025 | £ |
| School balances Brought forward from 2023-2024/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2023-2024 | 40,069 |
| School Loans Brought forward from 2023-2024/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2023- | 0 |
| Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn | 0 |
| Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig | 1,705,960 |
| Total/Cyfanswm | 1,746,029 |
| Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig | 1,711,069 |
| Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau | 0 |
| Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro | 0 |
| Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiad â chyfraddau a glustnodir | 0 |
| Total balance carried forward to 2025-2026/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i | 34,961 |
| Statement of Balances Held/Datganiad | £ |
| Uninvested Balance as at 31st March 2025/Balans na fuddsoddiwyd ar 31 Mawrth 2025 | 34,961 |
| Invested Balance as at 31st March 2025/Balans a fuddsoddiwyd ar 31 Mawrth 2025 | 0 |
| Outstanding Loans as at 31st March 2025/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2025 | 0 |
| Total Balances held as at 31st March 2025/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2025 | 34,961 |

i. Allwood